Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Menter a Busnes

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Mercher, 26 Mehefin 2013**

Amser:
**09:00**

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:


**Polisi: Siân Phipps**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8582/8025
Pwllygor.Menter@cymru.gov.uk


## Agenda

**Cyfarfod cyn y prif gyfarfod (09.00-09.15)**

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

### 2 Y Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) - craffu ar waith y Gweinidog (09.15-10.15)

Leighton Andrews AC, y Gweiniog Addysg a Sgiliau

Andrew Clark, Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Addysg Bellach a Phrentisiaethau

Grace Martins, Uwch Gyfreithiwr

Neil Surman, Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-Adran Addysg Uwch

**Egwyl (10.15-10.30)**

### 3 Ymchwiliad i Entrepreneuriaeth ymysg Pobl Ifanc - craffu ar waith y Gweinidog (10.30-11.30) (Tudalennau 1 - 2)

Edwina Hart AC, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

Glynn Pegler, Hyrwyddwyr Entrepreneuriaeth Fusnes

James Taylor, Hyrwyddwyr Entrepreneuriaeth Fusnes

Sue Poole, Rheolwr Menter, Canolfan Menter Rhanbarthol AB/AU De Orllewin Cymru

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

**Ôl-drafodaeth (11.30-11.50)**

**Y Bil Eiddo Deallusol: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (11.50-12.15)**

**PAPUR I'R PWYLLGOR MENTER A BUSNES**
**ENTREPRENEURIAETH IEUENCTID YNG NGHYMRU**

**Cyflwyniad**

1. Pwrpas y papur hwn yw cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig ynghylch Entrepreneuriaeth Ieuenctid yng Nghymru i'r Pwyllgor Menter a Busnes.

2. Rydym wedi ymrwymo i sefydlu diwylliant entrepreneuraidd yng Nghymru drwy Gynllun Gweithredu'r Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid (YES), strategaeth ar y cyd rhwng yr Adran Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth a'r Adran Addysg a Sgiliau.

3. Rydym yn canolbwyntio ar gyflawni'r camau gweithredu o fewn YES i hyrwyddo gwerth entrepreneuriaeth ac i helpu pobl ifanc â chyfleoedd dysgu entrepreneuraidd a'r rhai sydd am ddechrau busnes.

4. Mae YES yn hyrwyddo gwaith partneriaeth gyda phobl ifanc, busnesau, addysg a sefydliadau cymunedol a thrydydd sector.

**Hyrwyddo Entrepreneuriaeth Ieuenctid**

5. Mae Cynllun Gweithredu YES bellach yn ei drydedd flwyddyn, ac yn gweld cynnydd da iawn. Cyhoeddir diweddariad blynyddol ar wefan Syniadau Mawr Cymru, yn rhoi manylion am y cynnydd yn erbyn bob un o'r deg Cam Gweithredu Allweddol, allbynnau, mesurau effaith a cherrig milltir allweddol.

6. Mae Entrepreneuriaeth Ieuenctid yn cael ei hyrwyddo'n benodol drwy wefan Syniadau Mawr Cymru a chyfryngau cymdeithasol. Mae rhwydwaith o saith Hyrwyddwr Entrepreneuriaeth Busnes yn hybu entrepreneuriaeth ac yn rhoi arweiniad ynghylch polisi entrepreneuriaeth.

7. Rydym yn dathlu ac annog entrepreneuriaeth yn ystod Wythnos Entrepreneuriaeth y Byd yn flynyddol, gan annog pobl o bob oed i roi eu syniadau busnes ar waith, a chodi ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael i fusnesau newydd yng Nghymru.

**Cyflawni Entrepreneuriaeth Ieuenctid**

8. Mae'r gwaith o gyflawni Entrepreneuriaeth Ieuenctid yn unol ag ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu i hyrwyddo twf economaidd a darparu swyddi i bobl ifanc. Mae'n ceisio sefydlu diwylliant o entrepreneuriaeth yng Nghymru; cynyddu nifer y cwmnïau bach sy'n cael eu creu yng Nghymru er mwyn helpu i adeiladu sector preifat mwy mentrus; cefnogi ffurfiau amgen o fenter, ac annog mwy o bobl ifanc i ennill y sgiliau angenrheidiol i ddatblygu potensial Cymru ar gyfer twf economaidd.

9. Ar ddechrau'r daith Entrepreneuraidd, mae YES yn gweithredu fel porth a dolen at gymorth menter prif ffrwd sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru a'r sectorau cyhoeddus a phreifat ehangach.

10. Ystyriwyd argymhellion yr Adroddiad Microfusnesau, barn yr Hyrwyddwyr Entrepreneuriaeth Busnes a thrafodaethau gan Banel y Cynllun Gweithredu YES wrth gyflawni gwasanaethau Entrepreneuriaeth Ieuenctid sy'n canolbwyntio ar:

- Bobl ifanc 16-24 oed, ond gan ymgorffori gweithgareddau peilot ar gyfer grwpiau oedrannau iau, gan gynnwys prosiect ar gyfer ysgolion cynradd;

- Profiadau a chyfleoedd menter ymarferol, arloesol, gan gasglu cefnogaeth busnesau, yn arbennig Cwmnïau Angori, i gynorthwyo entrepreneuriaeth ieuenctid;

- Tynnu ar brofiad entrepreneuriaid i ysbrydoli pobl ifanc ac annog agwedd gadarnhaol i fynd amdani;

- Cydlynu gweithgarwch ar sail ranbarthol, gan gysylltu â datblygiadau economaidd ehangach ee Busnes Cymru, er mwyn darparu llwybr clir i bobl ifanc gymryd y camau nesaf tuag at entrepreneuriaeth/dechrau busnes;

- Defnyddio www.SyniadauMawrCymru.com fel ffordd cost effeithiol a chynaliadwy o gyfathrebu'n effeithiol â phobl ifanc a sefydliadau partner;

- Symleiddio strwythurau ariannu i leihau costau gweinyddu, gan wella gwerth am arian drwy arbedion maint.

**Mesur Effaith**

11. Newid Agweddau - mae 55% o bobl ifanc dan 25 bellach ag uchelgais i fod yn hunan gyflogedig a bod yn feistri ar eu hunain, wedi codi o 42% yn 2004 (Arolwg Omnibws Cymru 2012).

12. Entrepreneuriaeth Cyfnod Cynnar a Dechrau Busnes – Dangosodd Adroddiad Monitor Entrepreneuriaeth y Byd 2011 bod gweithgarwch entrepreneuraidd cyfnod cynnar yng Nghymru yn 2011 yn 8.1 y cant, sy'n uwch na'r cyfartaledd yn y DU sef 7.6 y cant.

13. Yn galonogol, roedd cyfradd gweithgarwch entrepreneuraidd cyfnod cynnar oedolion ifanc rhwng 18 a 29 oed yn parhau i godi yn 2011. Mae'r gweithgarwch entrepreneuraidd cyfnod cynnar ymysg y grŵp oedran hwn bron wedi treblu yng Nghymru o 3.4 y cant yn 2002 i 9.7 y cant yn 2011.